Buddsoddwyr mewn Pobl

Beth yw Buddsoddwr Mewn Pobl?
Mae Buddsoddwr Mewn Pobl (BMP) yn erfyn gwella busnes sydd wedi'i lunio i wella perfformiad sefydliad drwy ei bobl.
Datblygwyd y safon yn 1990 gan bartneriaeth o fusnesau arweiniol a sefydliadau cenedlaethol. Mae'r safon yn cynorthwyo sefydliadau i wella eu perfformiad a cyrraedd nodau trwy reolaeth a datblygiad eu pobl.
Mae'r safon Buddsoddwr Mewn Pobl wedi ei selio ar dri prif egwyddor:

Cynllunio – datblygu strategaethau i wella perfformiad y sefydliad;
Gwneud – gweithredu er gwella perfformiad y sefydliad;
Adolygu – gwerthuso'r effaith ar perfformiad y sefydliad.

Ymrwymiad GISDA i Buddsoddwyr Mewn Pobl
Mae'r Cwmni yn ymrwymo i wella ansawdd ein gwasanaeth yn gyson drwy ddatblygu ein adnodd pwysicaf - EIN STAFF.
Disgwylir i bob aelod o staff rhoi o'i gorau bob amser, ym mhob agwedd o'i gwaith. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol eich bod yn cymryd cyfrifoldeb a pherchnogaeth i wella eich hyn ac yn y pendraw ansawdd y Cwmni.
I'n galluogi ni i wneud hyn, mae'n rhaid :
• Dangos ymrwymiad.
• Cymryd perchnogaeth.
• Gwella ein cyfraniad yn gyson.
Drwy dderbyn y cyfrifoldeb yma, mae'r Cwmni yn ymrwymo adnoddau megis: cyllid, amser, strategaeth, hyfforddiant, arolygaeth ac adolygiadau i'ch galluogi i gyrraedd eich llawn botensial.
Nôd y Cwmni yw i sicrhau bod pob aelod o staff gyda'r cymwysterau perthnasol i alluogi'r Cwmni gydymffurfio â'r safonnau a osodwyd gan Cyngor Gofal Cymru a'n cyfrandalwyr.
Mae GISDA wedi ennill cydnabyddiaeth fel Buddsoddwr Mewn Pobl ers 2000.
Mae'r Cwmni yn cael ei adloygu yn rheolaidd (oleiaf bob tair blynedd) i sichrau ei fod yn cael cadw'r safon Buddwoddwr Mewn Pobl.